Cooke& Arkwright

www.coedely.com

AR WERTH

# Coed Ely Tonyrefail CF39 8BL

- Safleoedd Datblygu Gwych o 1.21 erw
- Cyfanswm arwynebedd y safle yw 13.39 hectar (33.1 erw)

- Cyfle datblygu blaenllaw
- Yn agos iawn i C34 yr M4 ac yn gyfagos i'r A4119 Ffordd Gyswllt Cwm Rhondda
- Yn addas ar gyfer defnydd masnachol amrywiol (yn amodol ar ganiatâd cynllunio)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Coed Ely, Tonyrefail, CF39 8BL

- Safleoedd Datblygu Gwych o 1.21 erw
- Cyfanswm arwynebedd y safle yw 13.39 hectar (33.1 erw)

Lleolir **Coed Ely** mewn lle blaenllaw rhwng Llantrisant a Thonyrefail, sef 4.5 milltir i ochr ogleddol Cyffordd 34 Traffordd yr M4. Mae mynediad uniongyrchol i'r safle o gylchfan ar yr A4119 sy'n rhedeg ar hyd ymyl dwyreiniol y safle. Mae'r rhwydwaith o heolydd cyfagos yn cynnig cysylltiadau rhagorol â Thraffordd yr M4 i'r de ac i Gwm Rhondda i'r gogledd.



## Disgrifiad

Mae'r safle'n cynnwys darn agored o dir sy'n wastad ar y cyfan ac sydd wedi'i wasgaru ar draws sawl lefel wahanol. Gwnaed gwaith isadeiledd sylweddol ar draws y safle i ddarparu ffordd newydd a phwyntiau mynediad i'r lleiniau unigol. Mae'r lleiniau datblygu sydd ar gael yn gyfanswm o 13.39 hectar (sef 33.1 erw) â mynediad drwy ffordd ystâd.

Mae'r ardal yn lleoliad masnachol poblogaidd a sefydledig, a lleolir Parc Busnes Llantrisant i ochr ddeheuol y safle ac mae meddianwyr o bwys yn cynnwys y Bathdy Brenhinol, Perkin Elmer, Finnings a Sigma Kitchens. Gan barhau i'r ochr ddeheuol, byddwch yn cyrraedd ardaloedd masnachol Pontyclun a Talbot Green.

## Cynllunio

Mae'r safleoedd wedi'u clustnodi at ddibenion cyflogaeth. Bydd yr holl ddatblygiad newydd yn destun caniatâd cynllunio priodol, gan ddibynnu ar y defnydd arfaethedig.

## Deiliadaeth

Mae'r lleiniau ar gael i'w prynu ar sail Lesddeiliadaeth Hir gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o 999 o flynyddoedd at ddibenion codi adeiladau addas, i safon y cytunwyd arni a chadarnhad o'r defnydd arfaethedig.

## Polisi Datblygu Cynaliadwy

Rhaid i'r prynwr gydymffurfio â Pholisi Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

## Pecyn Gwybodaeth Datblygu

Mae pecyn gwybodaeth am wasanaethau, adroddiadau topograffig ac archwiliadau safle ar gael ar gais.

## Gwasanaethau

Gall pob llain gysylltu â gwasanaethau trydan, nwy, dŵr a phrif ddraenio. Manylion llawn ar gais.

## Tâl Gwasanaeth


Mae'r cleient yn cadw'r hawl i gynnwys darpariaeth tâl gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw'r ardaloedd cyffredin o'r parc busnes sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru neu ei hasiantiaid rheoli.

## Costau'r Prynwr

Y prynwr fydd yn gyfrifol am unrhyw ffïoedd cyfreithiol a phroffesiynol sy'n codi fel rhan o unrhyw drafodyn.

## TAW

Nid yw unrhyw bris a ddyfynnir yn cynnwys TAW.




## Argaeledd

| | Hectarau | | Erw | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleiniau | Cyfanswm | Y gellir ei ddatblygu | Cyfanswm | Y gellir ei ddatblygu | Argaeledd |
| 1 | 0.59 | 0.59 | 1.45 | 1.45 | Ar gael |
| 2 | 1.75 | 1.24 | 4.32 | 3.06 | Dan Gynnig |
| 3 | 0.87 | 0.71 | 2.15 | 1.76 | Manyleb Adeiladu |
| 4 | 0.49 | 0.49 | 1.21 | 1.21 | Ar gael |
| 5 | 0.94 | 0.87 | 2.32 | 2.15 | Dan Gynnig |
| 6 | 2.09 | 1.99 | 5.16 | 4.92 | Dan Gynnig |
| 7 | 1.18 | 1.13 | 2.92 | 2.80 | Ar gael |
| 8 | 1.01 | 0.98 | 2.51 | 2.43 | Ar gael |
| 9 | 1.10 | 1.07 | 2.72 | 2.65 | Ar gael |
| 10 | 1.38 | 1.36 | 3.41 | 3.35 | Ar gael |
| 11 | 1.36 | 1.33 | 3.35 | 3.28 | Ar gael |
| 12 | 0.64 | 0.62 | 1.58 | 1.52 | Dan Gynnig |
| **Cyfanswm** | **13.394** | **12.375** | **33.096** | **30.576** | |

## Ardaloedd



**Llwyfandir Gogleddol**



**Llwyfandir Canol**



**Llwyfandir Deheuol**




Ymweliadau / Rhagor o Wybodaeth

Cysylltwch â'r asiantiaid swyddogol, Cooke and Arkwright:

**Rhys Price**

e-bost: rhys.price@coark.com

ffôn: 029 2034 6346

**Ben Bolton**

e-bost: ben.bolton@coark.com

ffôn: 029 2034 6376

**Tim Lawley**

e-bost: tim.lawley@coark.com

ffôn: 029 2034 6346

**www.coedely.com**

**www.coark.com**